

Mae EDF Renewables UK yn cynnig parc ynni adnewyddadwy yn Hirfynydd, rhwng Creunant a Blaendulais. Cyhoeddwyd ein cynigion yn 2022 ac ers hynny rydym wedi cynnal dwy rownd o ymgynghori cyhoeddus.

Rydym wedi cael gwybod bod gwybodaeth anghywir am y prosiect wedi'i dosbarthu i'r gymuned. Fel datblygwr cyfrifol, dyma nodi'r wybodaeth ganlynol mewn ymateb i gamgymeriadau a wnaed.

Ceir datganiad llawnach ar dudalen prosiect Hirfynydd ar wefan EDF Renewables UK.

Byddwch yn dawel eich meddwl...

Gall pobl barhau i fwynhau'r tir mynediad agored a'r llwybrau cyhoeddus pan fydd y prosiect ar waith heb fawr o aflonyddwch yn ystod y gwaith adeiladu.

Ni fydd UNRHYW effaith ar Ffordd Rufeinig Sarn Helen.

NI FYDD Parc Ynni Adnewyddadwy Hirfynydd yn peryglu swyddi yn y pwll glo gweithredol, Aberpergwm. Nid oes gan EDF Renewables UK unrhyw ddylanwad o gwbl ar ddyfodol y pwll glo.

Mae storio ynni batris yn ffordd ddiogel o storio trydan. Bydd cynllun rheoli diogelwch batris yn rhan o'r cais cynllunio ac ymgynghorir â'r gwasanaeth tân lleol. Darllenwch fwy am ddiogelwch ar ein gwefan.

Mae'r fferm solar ar ardal o laswelltir wedi'i led-wella, ac mae gennym gynlluniau i wella'r cynefin o dan y paneli. Bydd lleoliad y tyrbinau gwynt yn osgoi mawn cymaint â phosibl. Lle nad yw hyn yn bosibl, bydd mawn yn cael ei ailddedfnyddio i greu cynefinoedd newydd a gwella dyddodion mawn diraddiedig.

Nid oes tystiolaeth bod datblygiadau ynni adnewyddadwy yn cyfyngu ar dwf twristiaeth. Mae twristiaeth yn parhau i ffynnu mewn ardaloedd lle mae llawer o brosiectau ynni adnewyddadwy, fel yr Alban, Cernyw a gogledd Cymru. Mae ffermydd gwynt yn yr ardal gan gynnwys Fferm Wynt Maesgwyn yn y Banwen, Fferm Wynt Pen y Cymoedd neu Fynydd Brombil, i gyd yn agos at atyniadau twristiaidd fel Zip World, Parc Coedwig Afan, a Pharc Margam. Nid yw prisiau tai na thwristiaeth wedi cael eu heffeithio. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael ar-lein.

Gellir ychwanegu'r papur hwn at eich ailgylchu cartref

Gwynt ar y tir a solar yw dau o'r mathau rhataf o gynhyrchu ynni newydd. Wrth inni adeiladu mwy o brosiectau ynni adnewyddadwy, byddwn yn lleihau ein dibyniaeth ar fewnforion nwy sef prif achos biliau ynni uwch.

Mae'r prosiect eisoes yn creu swyddi gyda llawer o'r arbenigwyr a gyflogir yn Hirfynydd wedi'u lleoli yn ne Cymru. Mae EDF Renewables UK wedi agor swyddfa ar gyfer ei dîm sy'n ehangu yn ne Cymru. Wrth i'n portffolio o brosiectau dyfu, bydd mwy o staff datblygu'n cael eu recriwtio, ac wrth i brosiectau gael eu hadeiladu, bydd staff gweithredu a chynnal a chadw yn cael eu cyflogi.

Ym mis Gorffennaf, cynhaliom ddigwyddiad i gyflenwyr ym Mhort Talbot a chofrestrodd bron i 100 o gynrychiolwyr o gwmnïau lleol.

Mae terfynau uchaf llym yn rheoli faint o sŵn a ganiateir o dyrbinau gwynt. Mae'r lefelau sŵn o fferm wynt modern rhwng 35 a 40dB yn y cartref cyfagos agosaf ar ddiwrnod gwyntog iawn. Mae lefelau sŵn pob dydd i gymharu yn: Swyddfa dawel, llyfrgell 40dB, Eilliwr trydan 50-80dB, Sugnwr llwch 70dB.

Mae'r gronfa gymunedol arfaethedig hyd at £270,000 bob blwyddyn sy'n cyfateb i £9.45M dros oes 35 mlynedd y prosiect, yn gysylltiedig â mynegai.

Ewch i'n gwefan neu e-bostiwch dîm y prosiect os oes gennych unrhyw gwestiynau.

hirfynydd@edf-re.uk



Y broses

Nid yw'r cais cynllunio wedi'i gyflwyno eto. Rydym yn gweithio ar y dyluniad terfynol yn dilyn adborth o'r ddwy rownd o ddiwrnodau gwybodaeth i'r cyhoedd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys Cadw, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Lleol. Byddwn yn cyflwyno'r Datganiad Amgylcheddol drafft i ymgylgoreion statudol a'r cyhoedd yn ystod cyfnod ymgynghori statudol o chwe wythnos, yn ddiweddarach eleni fwy na thebyg.

Dysgwch fwy am yr asesiadau amgylcheddol rydym yn eu cynnal ar borth Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru, yma <https://planningcasework.service.gov.wales/cy> gan ddyfynnu rhif achos CAS-02084-T4Z8W4.

Parc Ynni arfaethedig Hirfynydd



Hyd at 7 tyrbin a fferm solar gyda chynhwysedd cyfunol o hyd at 100 MW



Storio batris



Cynhyrchu digon o drydan ar gyfer 37,500 o gartrefi bob blwyddyn*



Cronfa budd cymunedol o hyd at £270,000 y flwyddyn, bob blwyddyn



Gostyngiad mewn allyriadau CO₂ o tua 64,000 tunnell y flwyddyn



Cyfle am gydberchnogaeth/ perchnogaeth leol

*Yn seiliedig ar amcangyfrif o allbwn trydan gwynt blynyddol o 102,054 Megawat Awr gan ddefnyddio ffactor capasiti o 23.3%; amcangyfrif o allbwn trydan solar ffotofoltäig o 46,428 Megawat Awr gan ddefnyddio ffactor capasiti o 10.6%; cyfanswm allbwn trydan o 148,482 Megawat Awr.

Cyd-destun - Newid Hinsawdd

Newid hinsawdd yw un o'r bygythiadau mwyaf sy'n ein hwynebu. Yr haf hwn, rydym yn dyst i ganlyniadau difrifol tymheredd byd-eang cynyddol gyda gwres eithafol ar draws Ewrop, yr Unol Daleithiau a Tsieina, yn ogystal â thanau gwyllt a llifogydd dinistriol.

Mae defnyddio ynni adnewyddadwy yn lleihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil a faint o allyriadau carbon deuocsid niweidiol sy'n cael eu rhyddhau i'r atmosffer.

Mae gan Lywodraeth Cymru dargedau i fynd i'r afael â newid hinsawdd, gan gynnwys cyrraedd 100% o'i defnydd o drydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035. Ar hyn o bryd, dim ond 55% sy'n dod o ynni adnewyddadwy.

Mae cwrdd â Sero Net yn golygu bod yn rhaid i ni drydaneiddio gwres, trafndiaeth a diwydiant. Mae amcangyfrifon yn awgrymu y bydd hyn yn gofyn am gynnydd o bum gwaith yn y trydan yng Nghymru rhwng nawr a 2050.

